

ECO'R WYDDFA

RHIF 11

IONAWR 1977

Pris: 8g

A welsoch chi hen ffon fy nain?



y stori, a chafodd ei chadw'n ofalus gan y teulu. Felly, y mae hi ym meddiant Mrs. Ena Jones, Bod Ifor, Pontrhythallt heddiw.

Brodor o Ddeiniolen a fu farw'n ddeugain oed ym 1888 oedd Thomas Davies Thomas, (Glan Padarn). Cyhoeddodd ddwy gyfrol o'i gerddi — Caniadau (Hughes a'i Fab) pan oedd yn ifanc iawn, ac Odlau Padarn (H. Evans, Bala) pan oedd yn ddeg ar hugain. Yn y gyfrol olaf y ceir Hen Ffon Fy Nain.

Yn y rhifyn diwethaf o *Eco'r Wyddfa* 'roedd cofnod o briodas Glan Padarn. Merch y Black Horse, Clwt-y-Bont, oedd ei wraig, ac efallai fod yna stori fawr yn dilyn y briodas yma hefyd. Oherwydd os cafodd bardd ei ddiystyru erioed — Glan Padarn yw hwnnw.

Ai hel diod oedd ei bechod? Fe ymddengys fod tafarn yn y Black Horse (a'i fod lle mae tŷ'r Crown heddiw). Ac yn dafarnwr ar lan afon Menai ym Môn y bu farw. Dim gair amdano gan William Williams yn ei lyfr ar Hunangofiant Bro Llanberis, er ei bod yn rhaid ei fod yn ei adnabod. Dim gair yn y Bywgraffiadur ychwaith. Anghofwyd am fodolaeth Glan Padarn.

Ond mae ei gerdd *Cân y Fam i'w Phlentyn* (Cwsg fy anwylyd dinam...) gan W.J. Gruffydd yn ei Flodeugerdd. A chyfansoddodd cerddorion fel R.S. Hughes gerddoriaeth i lu o'i weithiau — Fy Annwyl Walia Wen, Merch y Capten, Bradwriaeth y Don, Y Bachgen Ffarweliodd â'i Wlad, Bugail Hafod y Cwm...

Yn ei ddyddiau cynnar pan oedd yn bwyswr yn y chwarel cyfansoddodd gerddi dirwestol argyhoeddiadol. Ond pan aeth ymlaen, fel yr hen wraig, i byrth y bedd, 'doedd ei gydwladyr parchus ddim am gydnabod hen ddirwestwr a drodd yn dafarnwr ifanc.

A WELSOCH CHI hen ffon fy nain — honno sydd yn y gerdd? Naddo, mae'n siwr, ond y mae hi ar gael, ac yn nes atoch chi na fuasech chi'n feddwl. Ble mae hi? Wel, ym Mod Ifor, Pontrhythallt. A pha brawf sydd yna mai dyma'r ffon yn y gân enwog? Bernwch chi.

Dywedir bod harmonium fechan gan Glan Padarn, awdur y gân, a medrai ei chario i dai cyfeillion. Fe ymwelai â Waun Hywel, tyddyn ar gwr Pontrhythallt lle'r oedd Mr. a Mrs. Joseph Pritchard o hil gerdd.

Ond yr oedd yr hen wraig, Mary Jones, mam Mrs. Pritchard yn credu, fel llawer o'r hen bobol, mai offeryn y diafol oedd yr harmonium, a phan ddeuai Glan Padarn ar ei sgawt fe âi hi allan efo'i ffon y munud hwnnw.

I ffon yr hen wraig yma y gwnaeth Glan Padarn y gân, yn ôl

DIRGELWCH Y TORGGOCH

GODRO'R gwartheg ar lan Llyn Peris oedd yr hen drefn; ond godro'r torgoch yw hi heddiw. Trefnodd y Bwrdd Trýdan i ddal y pysgod yn y llyn — llyn heb ddyfnder i bysgodyn — a thynnu'r wyau ohonynt. Yna fe'u megir gan y Bwrdd Dŵr yn eu deorfa ar afon Rheidol a'u gollwng yn ôl i llynnoedd eraill yn Eryri.

Rhydd yr arbrawf yma gyfle i brofi hefyd hen gredoau ynglŷn â'r torgoch — y pysgodyn a garcharwyd yn nyfroedd uchel Peris, Padarn a Cwellyn filoedd o flynyddoedd yn ôl.

Yn ôl Dafydd Ddu Eryri yn y *North Wales Gazette* yn 1809 mae'n amhosibl tynnu torgoch o'i llyn a'i fagu yn rhywle arall, ac ofer a fu pob ymdrech i wneud hynny.

A fydd yna amgenach lwc efo'r wyau?

Yr adeg yma o'r flwyddyn daw'r torgoch yn heidiau i'r dŵr bas a cheg yr afon i gladdu, a dyna pryd y rhwydid hwy erstalwm. Fe

ddalwyd trigain dwsin fel hyn mewn noson yn llynnoedd Llanberis, ac fe'u gwerthid am swllt y dwsin, neu eu halltu a'u cadw mewn casgenni.

"Ni wyddis," meddai Dafydd Ddu yn 1809 "am i'r torgoch erioed gael ei ddal â genwair."

Credid bod mynedfa danddaearol o Lyn Peris i Lyn Padarn, sy'n cysylltu hefyd â Llyn Cwellyn (Tarddenni yw hen enw'r llyn yma). A cheir hanes am dorgochiaid mewn llynnoedd eraill yn Eryri lawer blwyddyn yn ôl.

Erys cryn ddirgelwch o hyd ynglŷn â'r pysgod hawddgar yma, sydd fwy na heb yn diflannu o'r golwg am chwe mis cyntaf pob blwyddyn.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr Yr Eco

Mae PAWB



yn darllen YR ECO

Y NADOLIG

Ynom mae Gŵyl y Geni — a'i nages
Yn agor y llenni;
Daw'r hanes trwy ffenestri
Ein llygeid, i'n henaid ni.

Tony Elliott

ECO'R WYDDFA

RHIF 11 IONAWR 1977

Golygydd : Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Glanffynnon Llanrug.

Ffôn : Caernarfon 3719.

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.

CYFRANIADAU

DIOLCH o galon i "Di-enw o Ddeiniolen" am ei rodd o £1 i'r Eco. Hefyd Mr. Jim Parry, Caernarfon, £1.

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN ARFON

DAETH bron i ddeugain ohonom ynghyd i Festri Capel Penygroes, Tregarth i Weithdy a gynhaliwyd dan nawdd Rhanbarth Arfon o Fudiad Ysgolion Meithrin. Croesawodd y Cadeirydd, Gwenda Davies, Tregarth bawb i'r ail Weithdy o dan ofal Miss Gaenor Edwards, Caerdydd. Cafwyd gair o groeso hefyd gan Mrs. Mair Jenkins Jones a hyfryd oedd cael cwmni y cynrychiolwyr o'r cylchoedd Meithrin newydd, sef Gerlan, Bethel, Tal-y-Bont, Bangor a'r Felinheli.

Yn ystod y noson bu pawb yn ddiwyd iawn yn paratoi dau offer newydd ar gyfer eu cylch - sef bwrdd gwlanen gydag anifeiliaid y fferm a'r sw i'w gosod arno a hefyd gêm ar gyfer y plant bach, - math o 'lotto'. Bu Cylch Meithrin Tregarth yn brysur yn paratoi lluniaeth ar gyfer pawb a diolchwyd iddynt am eu croeso gan Mrs. Astra Thomas o Gylch Meithrin Penrhosgarnedd.

Yn ystod y noson hefyd cafwyd arddangosfa o lyfrau a gwerthwyd nifer ohonynt. Barn pawb oedd fod dod at ein gilydd fel hyn yn gymorth mawr i bob Cylch a bellach mae nifer dda o gylchoedd yng nghylch Bangor a chafwyd cynrychiolwyr o bob un ohonynt yma ac o Lanllyfni hefyd.

Nos Iau Tachwedd 18ed cafwyd cyfarfod arall yn Llyfrgell y Coleg Normal Bangor yn unol â Rhanbarth Môn. Daeth nifer dda ynghyd i glywed sgwrs gan Mrs. Edward Rees ar 'Adroddiad Bullock' lle y pwysleisir mor bwysig yw i blentyn gael clywed stori a chael llyfrau ac offer syml wrth law bob amser.

Llywydd y noson oedd Mrs. Ceinwen Davies a chafwyd gair o groeso ganddi a diolchwyd gan Mrs. Gwenda Davies, Tregarth.

Bydd cyfarfod nesaf Rhanbarth Arfon yn cael ei gynnal yng Nghaernarfon ar Chwefror 24ain 1977.

LLYTHYRAU

DIOLCH AMDANYN NHW!

45 Station Road,
Birmingham,
CHESTERFIELD
S43 1JU

Annwyl Olygydd,

Drwg gennyf - that I must continue in Saesneg - my daughter and son-in-law have come to live in Gogledd Cymru; they are both learning to speak Welsh, and have encouraged me to try to do the same (my wife, my nephew and niece also.) Well - I'm sixty three (a retired teacher) and Welsh is not one of the easiest languages to learn, but I'm interested in languages, and willing to learn. I was in the R.A.F. and soon learned then why they, perhaps, chose the motto 'Per ardua ad astra'; we were often short of the correct materials and were told to "use your loaf"; I hadn't then met the expression before, but soon found out that it was akin to "Have a go, Joe," or "today we will do the difficult - the impossible takes a little longer" (I suspect there's a Little anachronism there somewhere, but, never mind, press on regardless - which might be recognised as a bit more R.A.F. jargon.)

I'm no stranger to learning languages on my own; I can read (with very much varying degrees of facility) French, Swedish, German, Latin, Greek, Hebrew (tipyn bach!); but I cannot speak or write, any of them with ease.

Talymignedd Isaf,
Nantlle

Annwyl Olygydd,

'Rwy'n eich edmygu ac yn eich clodfori, holl drefnwyr Eco'r Wyddfa, am fisolyn mor ddiddorol ac mor glasurol. Fe ddeil i'w ddarllen am flynydd-oedd lawer, fel caneuon "Hogia'r Wyddfa" sydd yn cael eu trysori a'u gwrando ar sawl aelwyd yng Nghymru heddiw. O waelod fy nghalon dymunaf i chwi bob llwyddiant a bendith i'r dyfodol maith.

So, I thought, I'll face the 'ardua', and 'have a go', then, by the time my two young grandsons are five years old I might be able to talk a little to them in what is, for one of them, at any rate, his native language.

My son-in-law, Mr. Robert Skillicorn, has told me that you would be interested to receive from me a short 'item' written in Welsh: It's probably one of the most execrable bits of Welsh you've ever come across but I hope that you will find it interesting - and, perhaps, amusing.

I am enjoying learning Welsh - it isn't easy - the syntax is so different to the languages I've tried to learn before - but it is interesting.

I have bought several books and have been given others; I have a Bible (second-hand) a Welsh New Testament, two books for very young children, (one of these is not at all easy), others for older children (one of these, 'Dyfeisiadau a Newidiodd y Byd' is a beautiful book with colourful illustrations), others include Llyfr Emynau a Thonau y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleiaidd (I'm Methodist and like to attend service on Sundays, and this all helps in learning the language), and, of course, I receive Eco'r Wyddfa every month; I've also listened to Radio 4 in Welsh, but we don't receive it too clearly in Derbyshire (I've made a recording on my cassette recorder and keep on running it over a few

Y peth cyntaf a fyddaf yn ei wneud ar ôl derbyn Eco'r Wyddfa yn naturiol fydd chwilio am gyfraniad gan rhywun o fro fy mebyd, sef ardal fach y Ceunant. Ond er fy siom, rhaid i mi gofio a chysidro y di-boblogi mawr sydd wedi digwydd yno er pan adewais i bron i ddeugain mlynedd yn ôl, neu a bod yn gywir dros ddeunaw ar hugain. Mae'r gymdeithas wedi mynd ar chwâl fel "Chwalfa" T. Rowland Hughes.

Yn gywir,
W.J. Jones

times - you gradually pick up a bit more, like this - I've tried the method with Swedish). Oh yes, and I've learned off by heart a poem I found in the Oxford Book of Welsh Verse, called 'Rhywun' by John Blackwell (Alun); also I've learned by heart verse (1) of a hymn which begins 'O lechydwriaeth gadarn (I think 'lechydwriaeth' sounds like a little poem in itself).

I read a little out of the Bible in Welsh every day, and also part from Eco'r Wyddfa. So far I've read the whole of St. Mark's gospel, and I've nearly finished the June number of Eco'r Wyddfa (it now has many pieces of paper fastened to it with Sellotape, with all the words that I've looked up in the dictionary - I can then read it over again without looking any word up. In this way I can read copies of the paper without so much necessity to look up words).

I should mention that, on my visits to Clwt-y-Bont, I have received much kind help from the lady librarian at Deiniolen - some of the books which I have, I first saw in the library there.

Yn gywir,
Colin Davis

Mae fy merch a fy mab yn byw yn awr yn Clwt-y-Bont, felly 'rwyf yn dysgu Cymraeg. 'Rwyf wedi bod yn dysgu yn ystod misoedd hefyd. Mae fy ngwraig a mi yn ceisio siarad tipyn bach o Cymraeg bob dydd, ond mae ein geirfa yn bach hefyd. Ni ddywedwn 'Bore da' a 'Nos da' a 'Dewch i mewn, os gwelwch yn dda' a 'Sut ydych chi'.

'Rydw i'n darllen tipyn bach Cymraeg bob dydd hefyd. 'Rydw i'n cael llyfrau amryw; Y Beibl, llyfrau amryw i blant (Dechrau Darllen, Chwedlau Cymru i Ddysgwyr), a nifer eraill.

'Rydw i'n darllen y Beibl bob dydd. 'Rydw i wedi darllen yr efengyl yn ôl Sant Marc a Llyfr Ruth. Mae'n hawdd darllen y Beibl oherwydd gwn y Saesneg eisoes. Mae'n hawdd hefyd darllen newyddion lleol yn Eco'r Wyddfa oherwydd 'rydw i'n medru dyfalu llawer.

Mae dim hawdd yn dysgu Cymraeg; mae cystrawen gwahanol yn Saesneg; ond mae'n ddiddorol iawn.

Diolch o galon i chwi Mr. Davis. Efallai y rhydd eich geiriau doeth tipyn bach o hwb i eraill i 'dorchu eu llewys' a dysgu'r iaith Gymraeg.

Gol.

NADOLIG LLAWEN

A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i'n cwsmeriaid a'n cyfeillion oll
oddi wrth
deulu

**SIOP a MODURDY
GROESLON MARC**

LLAN (fihangel-yn-y-g) **RUG**

Ffôn: CAERNARFON 2445

Bydd y rhifyn nesaf
allan ar
IONAWR 27

Y deunydd i law'r
Golygydd erbyn
IONAWR 19

DEINIOLEN



CARNIFAL CYNTAF Y PENTREF

Aeth tymor carnifalau'r ardal heibio am eleni, bid siŵr, ac aeth mwy na deugain mlynedd heibio ers cynhaliwyd carnifal cyntaf y pentref ar achlysur agor siop newydd y Gymdeithas Gydweithredol yn y Stryd Newydd, Awst 1933.

Rhodddwyd benthg y llun isod i'r Eco gan Mrs. Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen, sydd i'w gweld yn y garfan ar flaen y carnifal cyntaf hwnnw pan ar gychwyn i'w daith o Dai'r Faenol.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y Gangen nos Lun, Rhagfyr 6ed. Mrs. Vera Hughes, Bethesda, oedd y V.C.O. ac ar ôl cael braslun o'r gwaith a'r sefyllfa ariannol gan y Swyddogion, diolchwyd iddynt a symudwyd i godi Pwyllgor am 1977 fel a ganlyn: Mrs. M.A. Thomas, 11 Maes Gwylfa (Llywydd); Mrs. Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, (Is-Lywydd); Mrs. Dilys Williams, 3 Tai Victoria (Ysgrifennydd); Mrs. E. Lloyd Jones, 89 Pentre Helen (Trysorydd); Mrs. Sally Lewis, Tai'r Glyn, Mrs. Marian Williams, 4 Tai Caradog, Mrs. Maureen Evans, Stryd Newydd, Mrs. Beryl Hughes, Rhydfadog, Mrs. E. M. Roberts, 73 Pentre Helen, Mrs. Marion Williams, Ffordd Deiniolen, Miss Kathleen Jones, Crown a Mrs. J. Wyn Williams, 74 Pentre Helen. Rhodddwyd y t. gan y Pwyllgor ac enillwyd y Raffl gan Mrs. M. Evans, Stryd Newydd. Y nos Wener ddilynol, cafwyd swper a noson eithriadol o ddiddorol a hwyliog ym Mhlas Maenan, Llanrwst. Diolchodd Mrs. Smalley i'r swyddogion fu'n trefnu.

Ar Ionawr 10fed disgwylir Mr. Dafydd Orwig, Bethesda, i roi sgwrs ar destun o'i ddewis.

GIRL GUIDES

Llawenydd oedd derbyn naw aelod newydd i'r 'Guides' mewn cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar Dachwedd 9fed. Cyn y seremoni difyrwyd y mamau gan y 'Guides' a threfnwyd cwpanaid o de a theisen i'r gwahoddedigion, ac ar derfyn y cyfarfod diolchwyd i'r mamau am eu cefnogaeth i'r Gangen.

Nos Sadwrn, Rhagfyr 11eg, eisteddodd y 'Guides' i Ginio

Nadolig yn Llanberis. Mawr oedd y canmol ar yr hwyl a'r sbri.

CYFARFOD BLYNYDDOL Y CO-OP

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Cymdeithas Gydweithredol Deiniolen a gynhaliwyd nos Lun, Rhagfyr 13eg, o dan lywyddiaeth Mr. Owen Hugh Jones, cafwyd adroddiad calonogol ar farchnata yn y siop am y flwyddyn aeth heibio. 'Roedd y gwerthiannau yn dangos cynnydd sylweddol, ac yn caniatáu talu disgownt o 2½c yn y £1. Diolchwyd yn wresog i Mr. D.T. Roberts a'i staff am eu gwasanaeth trylwyr i'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn.

Etholwyd y rhai canlynol i wasanaethu o'r newydd ar Bwyllgor y Gymdeithas: Mr. Meirion Jones, Minafon, Clwt y Bont; John Peris Roberts, Maes Eilian, Dinorwig; Leslie Roberts, Tai'r Lôn Las.

CLWB IEUENCTID

Ail-gychwynwyd y Clwb ym mis Medi a derbyniwyd aelodau newydd. Swyddogion y pwyllgor am 1976/77 yw Marion Williams (Ysgrifennydd); Keith Bingham (Trysorydd); Carys Williams (Swyddog Cyhoedduswydd).

Ym mis Hydref aeth deg aelod o'r Clwb i Bontnewydd i'n cynrychioli mewn cystadlaethau o dan do rhwng clybiau ieuencid yr ardal. Siomedig fu'r canlyniadau, ac nid fel llynedd.

Trefnwyd bws i'r Disgo ym y Bontnewydd ddechrau'r mis. Yr unig gŵyn oedd i'r Disgo orffen am 9.30p.m.

Yn y flwyddyn newydd bydd trip i'r Pwll Nofio ym Mangor ar nos Lun. (Enwau i Ieuan Roberts, yr Arweinydd, mor fuan ag sydd bosib). Hefyd bydd cystadlaethau pêl-droed 5-bob-ochr a phêl-rwyd rhwng y clybiau yn fuan yn y flwyddyn newydd.

Dymuna'r Arweinydd a'r aelodau ddiolch i'r Gofalwr, Mr. J. Morris, ac hefyd i Mr. W.J.Eames, Prifathro Ysgol Gwaun Gynfi, am eu cefnogaeth ac am gael defnyddio'r ysgol gydol y tymor.

Yn olaf, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r aelodau i gyd.

I IFAN PARRI

Da yw Ifan â'i dafod — ei ymson
Bob amser sy'n barod;
Hogiau bach, mae'n amlwg bod
Ein nerfau bron â darford!

O Gaban y Chwarel

CANRIF CRAIG YR UNDEB

Y DATHLU a'm symbylodd i gyfansoddi'r gân syml hon. Yr oedd yr arwr mawr, sef y diweddar Robert Parry, llywydd yr undeb, wedi ei wreiddio yn yr un tir a minnau. Nid wyf yn ei gofio, ond y mae gennyf gof byw am ei ddiweddar frawd Thomas Parry, Glasfryn. Edmygaf y ddau a'u teuluoedd a fu yn golofnau i gapel bach Ceunant am flynyddoedd maith.

Hen ardal hoff fy mabyd,
Meddylliaf amdanat ti,
Lle profais gynt y gwynfyd
Ar dy lechweddau di,
Uwchlaw ysblander hyfryd wlad
Ar aelwyd glyd fy mam a 'nhad.

Y fro lle mae fy ngwreiddiau
Yn aros yn dy bridd,
Cydrhwng y grug a'r creigiau
Ar erwau praid y ffridd.
I mi mae fel brenhines hud,
A'i llaw yn dal i siglo 'nghrud.

Mi gofia'r hen gyfoedion,
Cyfeillion bore oes,
Fu'n chwarae heb drallodion,
Na phrofi cur na chroes,
Tra'n tad a'n teidiau tlawd ynghyd
Yn tynnu torch â chaled fyd.

Cofiaf ar fin yr hwyrdydd
Redeg i lawr yr allt,
A theimlo sawr y dolydd
Yn suo drwy fy ngwallt.
A'm harchwaeth yn fy ieuanc nwyd
Am flas y frechdan o'r tun bwyd.

'Rwy'n cofio'r hen chwarelwyr
Yn dyfod draw o'r gwaith,
A'u llam fel llu o filwyr
A'r llwch yn cuddio'r graith.
'Roedd aml ŵr ar bwys ei ffon
Ymhell tu ôl i'r fintai hon.

Hen ŵr oedd rhain a blygodd
I arwr mawr y Groes,
Ac un o'r rhain a ddysgodd
Y gân i blant yr oes.
Y Gobaith lu oedd byd fy nhaid;
Wrth reddf 'roedd yno, nid wrth raid.

Fe'm dysgodd ni i barchu
Y seintiau ar y Sul,
A cheisio'u hefelychu
I rodio'r llwybr cul.
Ond gwyro wnaethom lawer gwaith
I demtasiynau ar ein taith.

Diolchwn fod maddeuant
I'r truenusaf rai,
Os crwydrodd plant y Ceunant,
Nid ar y saint mae'r bai.
Ond arnom ni, wrthgilwyr ffôl,
Na ddown i'r gorlan eto'n ôl.

W.J. Jones

I ARWEL

(ar farwolaeth ei fam)

Eiddil y goeden 'leni, — heno'n gam
Yn y gwynt a'r oerni;
Unwaith daeth nerth ohoni
A chysgod hynod i ti.

Ond Arwel, wrth ffarwelio, — er y boen

Ger y bedd, cai gofio!
Mae un oedd yma heno
Yn awr yn Ei Gwmni O.

Tony Elliott.

YNNI NIWCLIAR

Bydd grŵp Cyfeillion y Ddaear (Môn ac Arfon) yn dangos y ffilm "Energy. The Nuclear Alternative" yng Nghanolfan Llanberis am 8 o'r gloch nos Wener, Ionawr 21ain, 1977. Hefyd bydd arddangosfa ar beryglon ynni niwcliar.

Mynediad a phaned am ddim

CYFARCHION Y TYMOR

ODDI WRTH

**E &
E.M.GREEN**

**SIOP
GRON**

PENISARWAUN

Nwyddau Groser
Ffrwythau a Llysiau Ffres

Dewis rhagorol
Croeso cartrefol

RECORD FIR NEWYDD HOGIA'R WYDDFA

'DEWCH GYMRY GLÂN I WRANDO AR EIN CÂN'

13 o ganeuon gwerin gan

HOGIA'R WYDDFA

gan gynnwys caneuon poblogaidd fel

Rownd yr Horn; Lisa Lân; Ar gyfer heddiw'r bore;

Hwiangerdd Mair; Fflat Huw Puw; Llongau Caernarfon;

Si Hei Iwli 'Mabi ac eraill

SAIN 1072D

LLANBERIS

LLWYDDIANT

Llwyddodd Rhiannon, merch Mr. a Mrs. Selwyn Pritchard, Madryn, Stryd Newton, yn yr arholiad Piano Gradd 2 gydag anrhydedd yn ddiweddar. Disgybl ydyw i Miss Williams, Summer Hill.

PLAID CYMRU

Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn yn Festri Gorffwysfa ddechrau'r mis. Agorwyd y ffair gan Miss Phyllis Ellis, Penisarwaun Gwnaed elw sylweddol. Diolchir yn gynnes am gefnogaeth haelionus y pentref. Trefnwyd y coffi gan y Mri. T.J. Roberts, Douglas Pritchard a Bert Parry.

Y GYMDEITHAS

LENYDDOL (MC)

Cafwyd dau gyfarfod diddorol eto'r mis hwn. Ddechrau'r mis cafwyd noson o ffilmiau yng ngofal Elwyn Wilson Jones yn darlunio ymweliad Hogia'r Wyddfa a Pharti'r Ffynnon â'r America rai blynyddoedd yn ôl. Llywyddwyd y noson gan H.R. Jones, a diolchwyd gan John Owen. Noson o garolau a lluniaeth ysgafn a gafwyd cyn y Nadolig. 'Roedd y noson yng ngofal John Davies, a'r lluniaeth yng ngofal y merched Bydd y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr, ar y 17eg - "Noson o Gelfi Diddorol."

'AR Y DDAEAR TANGNEFEDD...'

Dyna thema gwasanaeth Nadolig plant gofalaeth Capel Coch, Gorffwysfa, Preswylfa a Rehoboth a gynhaliwyd nos Sul yng Nghapel Gorffwysfa. Paratowyd y plant gan garedigion y Cyfarfod Plant. Yn y gwasanaeth portreadwyd rhai o ddynion mawr Heddwch, George M.L. Davies, y Cymro; Gandhi, yr enaid mawr o India; a Martin Luther King, y Negro di-drais o'r U.D.A. Y nos Lun canlynol, trefnwyd parti i'r plant, ac ymwelodd Siôn Corn â'r plant gyda'i sach yn llawn o anrhegion. Trefnwyd gan garedigion y Cyfarfod Plant.

CYDYMDEIMLO

Ar ran holl gydweithwyr Arwel yn 'Eco'r Wyddfa' ac ar ran y darllenwyr oll estynnwn y cydymdeimlad dwysaf ag ef yn y brofedigaeth fawr o golli ei fam.

"KATIE"

Anodd yw sylweddoli bod un o gymeriadau mwyaf talentog Llanber wedi'n gadael. Byr fu cystudd Mrs. Katie Jones, Glasfryn a fu farw'n dawel yn 70 oed yn Ysbyty Môn ac Arfon, ac o'r herwydd mae'n anodd dygymod â'r ffaith na chlywir llais 'Katie' mwyach yn canu nac yn creu doniolwch. I'r pruddaidd ei fryd, y ffisig gorau oedd eiliad neu ddwy yng nghwmni Katie, a 'doedd ryfedd bod cymaint o alw arni hi a'i gŵr i ddiddanu mewn rhyw gyfarfod neu'i gilydd. 'Roedd yn aelod ffyddlon o Eglwys Preswylfa. Defnyddiodd ei thalentau cerddorol i gyfoethogi'r addoliad, a bu ei ffraethineb parod yn fodd i ysgafnu ambell i bwyllgor trymaidd. Cydymdeimlwn â Richard Jones, ei

phriod; ei mab, Arwel, ei chwaer, ei wyrion, a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth amdani.

BORE'R NADOLIG

Bydd Gwasanaeth Carolau syml am 10 fore'r Nadolig yn festri Capel Coch. Bydd croeso cynnes i bawb ymuno gyda ni i gydnabod gwir ystyr y diwrnod a ddathlwn. Trefnir gan y Cyngor Eglwys. Bydd y casgliad at 'Cymorth Cristnogol'.

GWAELEDD

Dymunir adferiad buan i Mrs. Doris Griffith, Dôl Elidir, a Mr. Aerwyn Roberts, Cambrian Lodge.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Elen Lloyd Roberts, Merddyn Coch ar ddathlu ei phenblwydd yn 21ain ar Ragfyr 24ain. Oddi wrth Mam, Dad, Arwel, Medwyn, Alwyn a Catrin, Taid, Nain a Jane.

PRIODAS RUDDDEM

Llongyfarchiadau i mam a dad, Mr. a Mrs. Robert Hughes, 7 Stryd Siarlot, Llanberis ar achlysur eu priodas ruddem ar Ionawr 1af, 1977. Priodwyd hwy yng Nghapel Moriah, Caernarfon ar Ionawr 1af, 1937.

Oddi wrth Elizabeth, Griff ac Eluned.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Nos Iau, Rhagfyr 16eg cynhaliwyd y cyfarfod misol gyda Mrs. Hannah Jones yn llywyddu. Cydymdeimlwyd a Mrs. Peris Thomas sydd wedi cael profedigaeth o golli ei brawd yn sydyn. Dymunwyd adferiad buan i bawb o'r aelodau sy'n wael neu wedi bod yn wael yn ddiweddar.

Cafwyd noson ddiddorol ac addysgiadol iawn yng nghwmni Mr. Selwyn Griffith o Fethel a'i ffrind, Mr. Dafydd W. Owen, yn dangos ffilmiau a dweud hanes ei daith rownd y byd yn ddiweddar. Gwnaed y te gan Mrs. Mair Jones, Mrs. Thelma Griffith, Mrs. Glenys Jones, Mrs. Betty Jones, Mrs. Gwen Edwards a Mrs. Martha Hughes. Diolchwyd i bawb gan Mrs. Nancy Jones a Mrs. Ray Williams.

Yng Ngwesty Victoria y cawsom Ginio Nadolig ardderchog eleni eto a chael ein diddanu gan Barti'r Heulwen yn hwyliog a dawnus dros ben.

CWM-Y-GLO

MERCHED Y WAWR

Nos Fercher, Tachwedd 8fed, cyfarfu'r gangen leol i fwynhau Noson Lawen a Swper Nadolig. Cyflwynodd y Llywydd, Mrs. Hannah Jones, Tawel Lan, y ddau wr gwadd, sef Mr. John Evans, Clwt y Bont, a Mr. R.H. Jones, Deiniolen. Canodd Mr. Jones nifer o unawdau poblogaidd yn cynnwys un o waith y diweddar O. Henry Jones, Cwm-y-Glo (Cwm Myfyr). Cafwyd adroddiadau o'i waith ei hun gan Mr. J. Evans, a mwynhawyd ei amrywiol enghreifftiau o ffraethineb y chwarelwyr. Mrs. Lowri Prys Williams oedd y cyfeilydd.

Fel arfer, y flwyddyn hon eto, Mrs. Katie Watkins, Dolwen, fu'n brysur yn paratoi'r swper pengamp ar gyfer yr aelodau a'u cyfeillion.

Ar ran yr aelodau diolchwyd i'r gwyr gwadd ac i Mrs. Watkins gan Mrs. Verna Jones, Meillionen.

Disgwylir gwledd o fath arall ar Ionawr 19eg pan fydd Miss Mat Pritchard yn rhoi anerchiad yn ei ffordd ffraeth ei hun.

ARWERTHIANT

Yn ddiweddar bu Arwerthiant yn yr ysgol o dan nawdd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon (yn cynnwys rhieni Brynrefail a'r Cwm). Agorwyd yr Arwerthiant gan Mrs. Dilys Sharp, a chyflwynwyd tusw o flodau iddi gan Sandra Hughes, Dolafon. Dymuna'r Prifathro, athrawesau, staff yr ysgol, swyddogion y Gymdeithas a'r holl rieni ddiolch yn gynnes iawn i bawb o'r ddwy ardal a gyfrannodd neu a gefnogodd mewn unrhyw fodd i wneud yr arwerthiant mor hynod o lwyddiannus.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Mr. Gwilym

Williams, Ddôl Bach, ar ei lwyddiant ym myd bridio cwningod o bob math. Nid yn unig mae wedi ennill mewn sioeau lleol, ond mae wedi lledu ei orwelion, ac wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn sioeau mawr ymhell o Wynedd. Pob lwc eto, Gwilym - yr ydym yn falch ohonoch.

CROESO

Croeso i Cheryl Wyn, merch a aned i Mr. a Mrs. Richard Hughes, 10 Dolafon, a Dafydd, mab a aned i Mr. a Mrs. Eirwyn M. Williams, Llwyn Coed. Anrhegion gwerth eu cael, ynte.

GWAELEDD

Deallwn fod Mrs. M.E. Hughes, Craig-y-Don, mewn ysbyty. Ein cofion ati, a brysied wella. Ymunwn hefyd â theulu Hyfrydle Tan y Graig, ac Alexandra yn eu gobaith am wellhad i'w chwaer, Mrs. Morris, Caernarfon, sydd wrth gwrs yn un o hen blant y Cwm.

Ein dymuniadau gorau hefyd i Mr. Morris o'r Bontnewydd sydd wedi cael damwain ac yn aros gyda'i ferch a'i fab yng nghyfraith, Mr. a Mrs. Eric Williams, Goleufryn.

CYDYMDEIMLO

Chwith gennym gofnodi marwol-aeth Miss Eva Millard, Gwelfor, a ymgartrefodd yma gyda'i diweddar frawd, dros 25 mlynedd yn ol. Cydymdeimlwn â'i nith a'i chyfeillion.

CYFARCHION Y TYMOR

Dymunwn fel pentref anfon ein cofion cynnes a'n dymuniadau gorau am Nadolig Dedwydd i gyn-drigolion a phlant Cwm sydd ar wasgar. Yng ngeiriau Hedd Wyn: 'Calon wrth galon sy'n aros eto/ Er ar wahân'.

DRAENOG DRWG DYBUS



Daeth gwybodaeth i law chwaer ddraenoges ynglŷn â'r Cyngor Hysbysrwydd Asbestos (Asbestos Information Council). Sefydlwyd y Cyngor er mwyn cynhyrchu propaganda i geisio'n perswadio nad yw gweithio gydag asbestos yn fygythiad i iechyd.

Diddorol yw nodi i'r Cyngor Hysbysrwydd Asbestos benderfynu gwario £500,000 ar hysbysebion yn fuan ar ôl i'r ffeithiau ynglŷn â'r clefyd asbestosis

ddod i sylw'r cyhoedd!

Hynod ddiddorol yw nodi pwy sy'n rhedeg y Cyngor, sef tri chwmni preifat. Dyma nhw:

Cape Industries, BBA a'r cwmni Turner and Newall sy'n berchen cwmni Ferodo. Mae'r tri chwmni rhyngddynt yn rheoli 98% o'r farchnad asbestos ym Mhrydain! Faint o'u propaganda wyt ti am ei gredu?

Ôl-nodyn: Silicosis, Asbestosis! Be' nesa? Pliwtioniwmitis?

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewygist

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr
Eco'r Wyddfa



BRYN-REFAIL

FFAIR NADOLIG

Dan nawdd Undeb y Mamau cafwyd noson lwyddiannus a gwerthu brwd ar y 14eg o Ragfyr. Ymhlith y nwyddau roedd teganau, bwydydd, stondin 'bron-yn-newydd' a chreffftwaith o bob math. Gwnaed elw o £45. Enillwyd y tair raffl fel a ganlyn: Hamper(1):Maldwyn Jones, 1 Tai Orwig; Hamper(2): Gwyn Roberts 8 Trem Eilian; Ffrwythau: Margaret Jones, 1 Trem Eilian, a Sheila Roberts, Llwyn Helyg, a ddyfalodd yn gywir bwysau parsel. Diolchir i bawb o'r ardalwyr am eu cefnogaeth.

CINIO'R HENOED

Nos Wener, Rhagfyr 3ydd, mwynhaodd aelodau Clwb yr Efail eu cinio Nadolig yng Ngwesty'r Stables, Llanwnda. Diddorwyd y cwmni wedi'r gwledda gan Mr. a Mrs. Idris Owen, Waunfawr.

GOBEITHLU

Diddanwyd y plant ieuengaf nos Fawrth, Rhagfyr 7fed gan blant hynaf y Gobeithlu. Yr oeddynt wedi trefnu'r cyfan o'r gwaith ymhlith ei gilydd ac wedi paratoi dramodig fer ar stori'r Pibydd o Hamelin. Yn dilyn, rhoed cwis Beiblaidd i ddau dim wedi ei drefnu gan y Parch. S.O.Hughes, Bethel, a chafwyd atebion parod iawn gan y plant. Einir Evans, Min-y-don, oedd yn gofalu am y defosiwn ar ddechrau'r cyfarfod, a'r cyfeilydd oedd Mrs. L.P.Williams.

Y GYMDEITHAS

Nos Iau, Rhagfyr 2, cafwyd cyf-

arfyddiad dan lywyddiaeth Mr. D. G.Ellis, Gwledfa. Y gŵr gwadd oedd Mr. W.Vaughan Jones, Waunfawr, a chafwyd noson ddifyr yn ei gwmni yn olrhain llawer i dystiolaeth am gysylltiad Madog â'r Amerig, ac yna yn dilyn hanes cynhyrfus y cenhadwr John Evans o'r Waunfawr yn ei ymchwil am yr Indiaid Cymreig. Cafwyd gair o ddiolch gan Mr. R.W.Evans a'r gwestwagedd oedd Mrs. Euronwy Roberts a Mrs. Eirlys Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 6ed pryd y disgwyliwn y Dr. Eirwen Gwynn gyda'r ddarlith "Troi at y Tir".

PROFEDIGAETH

Chwithdod i'r pentref fu colli o'n plith Mrs Nell Jones, Penllyn, ddydd Gwener, Rhagfyr 10fed. Yr oedd yn gymeriad hoffus gan bawb, yn hwyliog a siriol bob amser, ac yn hanu o un o deuluoedd hynaf yr ardal. Bu'r angladd y dydd Mawrth dilynol yn gyhoeddus yng Nghapel Bryn-refail ac yn dilyn yn Amlogsgfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parch. S.H.Williams, Cesarea. Gedy un chwaer, sef Miss Myra Foulkes, a chydymdeimlwn â hi a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

DIOLCH

Dymuna Mr. a Mrs. G. Pritchard, Glyn Afon, ddatgan eu diolch cynhesaf i lu o berthnasau a chyfeillion am eu dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniasant ar yr achlysur o ddathlu eu priodas aur.

DINORWIG

O'R YSBYTY

Da gennym weld fod Mrs. L. Jones, Bron Myfyr, wedi dod adref o Ysbyty Môn ac Arfon wedi triniaeth lawfeddygol. Gwellhad parhaol iddi ac i'r ardalwyr eraill sy'n cwyno hefyd.

CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlir â Mrs. Dora Jones, Bryn Hyfryd, ym marw ei brawd Mr. Robert I.Hughes yng Ngharmel. Brodor o'r ardal oedd Ifor, fel y'i hadnabyddid.

YN YR YSBYTY

Drwg gennym ddeall fod Mr. E. H. Jones, Cae Canol, Fachwen, yn Ysbyty Môn ac Arfon. Dymunir gwellhad buan a pharahaol iddo.

CYMDEITHAS LENYDDOL

Nos Iau, Rhagfyr 2, yn y Ganolfan cafwyd sgwrs a darluniau ar Eryri a mynyddoedd Ffrainc a'r Alpau gan Mr. J.R.Roberts, Warden Parc Eryri. Llywyddwyd gan Mr. Hugh Thomas, a thalwyd diolchiadau gan Mr. Eddie W. Lewis.

Nos Iau, Rhagfyr 16eg, yn Eglwys St. Mair cafwyd gwasanaeth o ganu carolau wedi ei drefnu gan y Parch. Ifor L. Williams (B), Bangor. Hyfforddwyd y Parti Canu gan Mrs. Betty Peris Roberts Talwyd diolchiadau gan Mr. O.R. Williams.

Bydd Cyfarfod Gweddi Undebol dan ofal y Parch. Ifor L. Williams (B), Bangor yng nghapel Sardis (B) nos Iau, Ionawr 6, 1977. Gwahoddiad cynnes i bawb.

NANT PERIS

ANRHYDEDD

Llongyfarchiadau i Mrs. Betty Humphreys, Gwastadnant ar dderbyn medal am bum mlynedd ar hugain o wasanaeth gyda'r Cynilion Cenedlaethol. Cyflwynwyd y fedal mewn cinio ym Mangor.

NOSON GOFFI

Cafwyd Noson Goffi lwyddiannus dan nawdd Cangen Plaid Cymru yn yr ysgol ddechrau'r mis. Dangoswyd sleidiau o olygfeydd lleol gan Mr. Ken Jones, 10 Glanrafon. Gwnaed elw sylweddol. Diolch am bob cefnogaeth.

GWELLA

Daeth Mrs. Prydwen Pritchard a'i brawd, Goronwy, Harri Wyn Jones ac Alun Hughes adref o'r ysbyty. Dymunwn adferiad llwyr a buan i'r tri. Diolchant i bawb am eu caredigrwydd tuag atynt yn eu gwaeledd.

Yr ydym yn falch o glywed hefyd fod Mr. T.R. Evans, Gardda Fawr yn gwella. Gyda'i ferch ym Mangor y mae ar hyn o bryd.

EISTEDDFOD

Bu Eisteddfod Eglwys St. Peris a Padarn yn llwyddiant eto eleni. Mae'r plant o'r ardal a fu'n llwyddiannus mewn gwahanol gystadlaethau yn rhy niferus i'w henwi. Llongyfarchiadau iddynt oll.

ENNILL TARIAN

Dyna wnaeth Elyfn M. Williams ar ol dod yn fuddugol mewn gornest ddrafftiau yn Llanllyfni. Llongyfarchiadau.

SIÔN CORN

Nos Fawrth, Rhagfyr 14eg, ymwelodd Siôn Corn â Ffestri Dinorwig (MC) a rhannodd anrhegion i'r plant, a chafodd de gyda hwy. Ni chafodd aros yn hir gan ei fod braidd yn brysur.

CYDYMDEIMLAD

Drwg gennym ddeall am farw Mrs. Katie Jones, Glasfryn, Llanberis, mam Arwel Jones, Golgydd Eco'r Wyddfa. Cydymdeimlir â Mr. Jones, ac a'i dad, Mr. Richard Jones, a'r cysylltiadau teuluol yn eu profedigaeth.

PENISAR WAUN

Mr.IDRIS OWEN, Minffordd
Balch oedd gennym glywed bod Mr. Owen wedi gwella ar ôl bod yn wael. Dymunwn adferiad buan a llwyr iddo.

Mrs. M.WILLIAMS, Tyddyn-waen

Erbyn hyn mae Mrs. Williams yn bur wael ac wedi gorfod symud i Ysbyty Dewi Sant. Cyn hyn bu am dair wythnos yng Nglyn Euron gyda'i merch Eiriona a'i theulu.

Mrs. ROBERT OWEN, Cae Corniog.

Mae Mrs. R. Owen hithau yn yr ysbyty ym Mangor. Brysiwch wella, Mrs. Owen.

NEWYDD-DDYFODIAID

Mae'n bryd inni estyn croeso i Mr. a Mrs. Tegid Roberts. Maen nhw wedi dod i 'Arwel' i fyw ers diwedd yr haf. Mae Mr. Roberts yn athro yn Ysgol Dyffryn Nantlle, ac mae ei wraig yn athrawes yn Ysgol Gwaun Gynfi.

GWIBDAITH I GAER

Ar fore oer iawn, Sadwrn, Rhagfyr 3ydd, gydag 11 gradd o rew aeth criw o Benisarwaun i Gaer i siopa. Ar y ffordd cawsom eira, niwl a rhew ac yr oedd pawb yn edmygu medrusrwydd Rhiannon, merch Mr. Eric Morris, yn gyrru'r bws yn y fath dywydd. Ein diolch i Mrs. Margaret Thomas am drefnu'r wibdaith ar ran y pentref.

PARTI'R HEULWEN

Dal yn brysur y mae Parti Clwb yr Heulwen. Yn ddiweddar bu'r parti yn diddanu aelodau Sefydliad y Merched yng Ngwesty'r Victoria.

CRONFA Mrs. R.H.OWEN

Cyfranwyd cyfanswm o £38.25 tuag at gronfa Mrs. R.H.Owen a ymddeolodd fel athrawes yn ystod yr haf wedi blynyddoedd maith o wasanaeth. Ei dymuniad caredig hi yw inni brynu offer ar gyfer yr ysgol. Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael.

Y NOSON GOFFI

Yr un modd, diolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant Noson Goffi'r Ysgol, pryd y gwnaed elw o tua £150.

TAN-Y-COED

YMWELIAD SIÔN CORN

Pnawn Mercher, 15ed o Ragfyr, cafodd plant Capel Tanycoed Barti Nadolig. Daeth Siôn Corn i rannu anrhegion iddynt. Dangoswyd ffilm i'r plant ar ôl te gan y Parch. W.O.Roberts. Cafodd y plant a'u mamau bawn hapus gyda'i gilydd.

Yn yr hwyr cafwyd Noson Goffi a Bwrdd Gwerthu i'r oedolion. Bu gweithio brwd ar gyfer y pnawn a'r hwyr. Diolch i bawb fu'n gweithio ac i'r rhai a roes roddion hael i hyrwyddo'r ddau gyfarfod.

GWASANAETH NADOLIG Y PLANT

Pnawn Sul, Rhagfyr 19eg, cafwyd Gwasanaeth Nadolig y Plant. Trefnwyd y gwasanaeth hwn gan y Parch. W.O.Roberts gyda holl blant yr Ysgol Sul yn gwasanaethu a chafwyd anerchiad i'r plant gan y gweinidog. Yn y gwasanaeth casglwyd tuag at Gymorth Cristnogol.

CYDYMDEIMLAD

Y mae cydymdeimlad yr ardal â Mrs. Williams, Pant y Bryngwyn, yn ei phrofedigaeth sydyn ac annisgwyl. Collodd Mrs. Williams ei brawd, Mr. Thomas M. Jones, Sardis. Bu farw ar Ragfyr 3ydd.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH

Eric Morris



**Arvonias Coaches
LLANRUG**

FFÔN WAUNFAWR 254

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



CROESO i'r "Llannerch" ar drothwy'r Nadolig, a chroeso arbennig i chi'r plant y tro hwn — gan mai chi sy'n hawlio'r Nadolig ynte! A phwy wêl fai arnoch! Arhoswch i mi gael gair bach hefo Dad a Mam a Taid a Nain i ddechra, fel galla i wagio y sachaid llinellau coll 'ma.

BEIRNIADAETH Y LLINELL GOLL

Dim cymaint yn cystadlu y tro yma ond nifer reit dda serch hynny — 134. Diolch yn fawr i chi am gynnig, cefais fwynhad mawr yn eich cwmni. Chwi gofiwch y pennill a roddwyd i'w gwblhau:

"Rwyf am brynu modur Mini"
"Fyddai Siôn un dydd wrth Siani"
"Nefoedd fawr", medd Siân mewn dychryn

Beth dd'wedodd Siân? Wel yn ôl y disgwyl fe dd'wedodd amryw o bethau. Fyddai fiw i mi gyhoeddi ambell i beth a dd'wedodd! Ond dyna fo — byd fel'na ydio ynte!

Dyma dameidiau i chi brofi:

MERI —
"Dyna fwy o waith i'r plismyn".
HWTW —
"Tin ar lôn a thrwyn ar olwyn."
PERO —
"A phris petrol bunt y galwyn?"
CADI —
"Beth am leisans ci i gychwyn?"
SIANI —
"Rhaid fydd lledu'r lôn myn coblyn"
SIANI —
"Camp fydd 'sgoi y glas a'r cwyd." —
ELIN —
"Cofia Siôn am faint ein plentyn."
W.D. —
"Gwell i ti fydd prynu telyn."
R.S.E. —
"Rhaid i'm slamio yn dra sydyn."
ANOBEITHIOL —
"Mae'r sedd ôl rhy fach 'rhen Sionyn."

Y tair ora' gen' i yw'r rhain:

"Beth wnaiff Minnie hebddo wedyn?"
gan CHWAER HERBIE
"Gwna dy 'wyllys, pryn o wedyn." gan
ARTHUR AFALLON
"Bydd dy fol yn sownd yn 'rolwyn."
gan H.R.J.

Mae gwobr o deirpant, a chan ei bod hi'n dymor ewyllys da — rhanner y wobwr rhwng y tri. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am gystadlu. Fe gawn ni gystad-leuaeth gyffelyb eto yn o fuan.

D.J. (dim cyfeiriad) yn gofyn clamp o gwestiwn i mi sef "Sut i fynd o'i chwmpas hi i gyflwyno barddoniaeth yn ddiddorol i blant Ysgolion Cynradd." Testun traethawd yn sicr D.J. Fe geisias eich ateb yn gynnil yn y rhifyn nesa', ond yn y cyfamser dowch i gysylltiad â mi. Cofiwch fod rhyw-faint o dalent y bardd ymhob plentyn. Ai athro ydych D.J.?

Yn ôl atoch chi, blantos — dowch yn nes i ni gael sgwrs fach.

Erstalwm 'roedd 'na dri dyn clyfar yn byw yn y Dwyrain 'na. 'Roeddau nhw wrth eu bodd yn astudio'r sêr, ac yn cael hwyl arni hefyd.

Un noson fe welson nhw seren newydd yn disgleirio yn yr awyr.

Duw wedi trimio; — y trimins cynta' i gael eu gosod reit siŵr.

A dyma'r tri dyn clyfar 'ma yn neidio ar gefn eu camelod, ac i ffwrdd â nhw, gan ddilyn y seren ddisglair 'ma yn yr awyr.

Yn sydyn, fel "traffic leits", dyma'r seren yn stiopio'n stond, — union uwchben beudy tlawd ym Methlehem Judea. Dyma'r tri dyn yn mynd i mewn i'r beudy a dyma nhw'n gweld brenin y brenhinoedd yn cysgu'n sownd yn y gwair.

Ia — Iesu Grist oedd o, — a 'doedd o'n poeni dim am nag aur na thus na myrr, a 'doedd o'n malio'r un botwm corn am Herod na neb.

A wyddoch chi be — mi 'roedd y tri boi clyfar 'na yn ddigon call i fynd adre ar hyd ffordd arall. Mi chwaraeon nhw dric hefo Herod, ac mi 'roddon nhw bresanta Nadolig i'r babi bach. Y presanta Nadolig cynta' i gael eu rhoddi erioed, ac mae'n siŵr gen i ma'r tri dyn clyfar yma oedd y tri Santa Clôs cynta' 'rioed hefyd. 'Dolig da ynte!

Y trimins cynta', — yr anrhegion cynta', a'r Santa Clôs cynta', a'r cyfan yn digwydd oherwydd i frenin gael ei eni mewn beudy.

Mae'n siŵr gen i eich bod chi wedi derbyn llawer o gardiau yn barod — ac wedi anfon dwsinau hefyd. Ys gwn i a wnaethoch chi feddwl anfon un i'r brenin a anwyd yn y beudy. Ydych chi'n gwybod y cyfeiriad? Wel dyma fo i chi ar ffurf carol:

Nadolig llawen
Neu Ddolig trist,
Rhaid anfon cerdyn
I Iesu Grist.

Darlun hyfryd
O'r engyl gwyn
Yn disgwyl y doethion
Ar ben y bryn.

Llun y baban
Ar wely o wair
A gwên ar wynebau
Joseph a Mair.

Parseli lliwgar
Anrhegion drud
Yn llenwi hosan
Gwardwr y byd.

Nadolig llawen
Neu 'Dolig trist,
Anfonwn ein cerdyn
I Iesu Grist.

Stampiwn yr amlen
Â seren y Nef
A phostiwn y cerdyn
I Fethlehem dref.

Bendith arnoch chi blant, a Hwyl Fawr dros y 'Dolig.

Selwyn

ARCHEBWCH ANGHENION
Y NADOLIG RWAN YN
STORFA

Mace S.&E. Jones Llanrug

FFÔN: Caernarfon 2790

BLODAU A FFRWYTHAU
YW EIN
HARBENIGRWYDD



S. JONES

CYFANWERTHWYR
FFRWYTHAU
(WHOLESALE
FRUITERER)

Y STORFA
LLANRUG
FFÔN

CAERNARFON 2790

AR WERTH
Boilar Drydan bron yn
newydd. £20.
Waunfawr 341.

LLE FAN

MAE Tocyn Llyfrau gwerth
ion cywir cyntaf a dynnir
Beth ydych chi i fod i wneud

Dim ond darganfod pa a
yn ôl eu trefn. Dim ond rh
ac mae un neu ddau wedi
golwg. Os nad ydych yn eu
Gyrrwch eich cynigion i'r

Gwê
Glar
LL

erbyn canol mis Ionawr neu



1




2



3



Llyn Padarn wedi rhewi ym mis Ionawr yn y flwyddyn 1917



....AC Y

Sylwch fod cyfnod o ddeng m
bydd deng mlynedd ar hugain
1977. Ysgwn i gawn ni gerdded

'DI MA?

3 ar ei ffordd i berchen yr ateb-
n o'r sach ar ddiwedd Ionawr.

ladau yw'r rhai isod a'u henwi
ohonyn nhw, sydd yn y golwg
annu ers rhai blynnyddoedd o'r
fio — gofynnwch i rywun.

olygydd.

y-Wawr,

fynnon,

NRUG,

ghynt.

OLION HEN OLWYNION

gan R.W. Rhosbodruall

DAU gymeriad hynod y dyddiau hynny oedd W.A.W. a G.L. Unwaith yn unig y cefais wrando ar y ddau ar yr un tro, yn yr un sedd, yn dod adre ar nos Sadwrn.

Fel arfer byddai W.A.W. yn dawedog, nes y tynnid arno i draethu. Byddai G.L. yn ffraeth bob amser.

Y noson hon W.A.W. oedd yn baldorddi, yn rhydd, am y byd a'r betws, yn enwedig am hogia Llanbyrrys. Eisteddai G.L. wrth ei ochr heb yngan gair nes cyrraedd pen Allt Pontrug pan gymrodd W.A.W. egwyl fach. Torrodd G.L. allan yn uchel gan annerch y teithwyr. "Ro'n i'n gwrando ar y gŵr ifanc yma yn siarad. O! mi 'roedd o'n siarad yn dda. A Hebraeg da gynno fo!" Chwarddodd pawb yn y bws a bu hwyl dda weddill y daith.

DYN O BWLLHELI!

Yr un cymeriad, G.L. oedd yn teithio o Benisarwaun ar fws i'r dre' wrth ochr dyn ifanc diarth, ac meddai wrtho, "Dach chi'n ddyn diarth ffor' yma?" "Ydwyf". "O ble 'dach chi'n dwad? 'rwy' mor hy â gofyn." "O Bwllheli". "Wyddoch chi ble ma' Penlan Fawr?" "Gwn, mi wn am y lle". "Argo, yn fan'no mae cwrw da." Siarad oedd o hefo gweinidog newydd Tanycoed a Cheunant.

FFRAETHINEB

Byddai amryw ddywediadau ffraeth yn cyniwair drwy'r ardal oedd hyn, yr adeg honno, a cheid hwy yn ateb i bopeth, fel y byddai'r galw. 'Un da ydi o'.

'mae' i eisio glaw'; 'Hidia beddo'; 'Ydi mae hi yn top' neu 'gan dy fod ti'n pwyso'. Ffordd lew o ofyn i rhywun, am "hywbeth, oedd 'gan dy fod ti'n pwyso'. "Gan dy fod ti'n pwyso, mi gymra'i y sigaret 'na!" meddai Didi. "Wyt ti'n meddwl y medri di ddal y pwysa?" meddai Twm, oedd heb yr un sigaret. "Ydw," meddai Didi. Dyna bwyso ar ei drwyn yn ôl ag un llaw, a llithro y llall i'w boced cesail, lle 'roedd cas sigarets, yn llawn. Sigaret i bawb wedyn o gwmpas, a hwyl am ben Didi yn ei ddagrau.

Amser difyr, yn sicr, oedd hi pan deithiem i gyd gyda'n gilydd ar hen olwynion gynt. Collasom lawer o'r difyrrwch, pawb yn ei focs bach ei hun, yn mynd i'r fan a fynno, pryd fynno, a dod yn ôl pan fynno, heb falio am neb arall.

Llawer iawn o ddiolch R.W. am gynnal y golofn am hanner blwyddyn. Mae llaweroedd wedi cael mwynhad o'i darllen. Brysiwch i daro pin ar bapur yn fuan eto — bydd lle yn *Eco*'r Wyddfa i chwi bob amser. — Gol.

BYSUS DAFYDD MORGAN

(Ddeugain mlynedd yn ôl)

'Roedd bysus bach yn plesio pawb
I deithio'n rhad i bobman
Yr hyn a blesiai'r ardal hon;
Oedd bysus Dafydd Morgan.

Os am roi tro o Ben y Llyn,
I lawr i'r dre' am fargen
Wel, naid ar risiau'r Meiti Dot;
Hen siandri Dafydd Morgan.

Os byddai'n bygwth bwrw glaw
A'ch bryd ar weld rhyw hogan;
Caech deithio'n sych, o dan y llen,
Yn siandri Dafydd Morgan.

'Doedd fawr o olau'n y sedd gefn
A chyfle da am gusan
'Rôl talu'r ffâr, caech lonydd llwyr
Yng nghysgod Dafydd Morgan.

Pe deuai anffawd fach i'w rhan
Heb frecs, neu'r golau allan.
'Doedd hynny'n poeni fawr ar rai,
Dim bai ar Dafydd Morgan.

Pan ddaeth y dydd y collwyd rhain,
'Roedd hiraeth dan bob asan.
Am deithio rhad, a difyr hynt
Ym mysus Dafydd Morgan.

Hen Deithiwr (cyn 1936)

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

**GELLWCH
YMDDIRIED
YN
JOHN
TREVOR
Garej Hafod
Llanrug
am geir newydd
ac ail law rhagorol**



**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA**



4



5



6



Llyn Padarn wedi rhewi ym mis Ionawr 1947

N 1977?

nedd ar hugain rhwng y ddau lun, a
union wedi mynd heibio yn Ionawr
r Lyn Padarn yn 1977?

LLUN YR EFEILLIAID

Ydach chi'n cofio'r efeilliaid yn rhifyn
diwetha'r *Eco*? Nid oedd perchennog y
llun yn sicr o ddau bâr: Diolch i lu o
bobl a roddodd wybodaeth amdanynt.
Y ddau bâr oedd: Mr. Ifan Roger
Hughes (a fu farw'n ifanc) a Mr. Rob-
ert David Hughes, Bryn Eden, Llanrug,
a Millie Lewis a Mrs. Anna (Richardson
o Erw Hywel.

Sibrydion o'r Ysgolion

COLLED FAWR

Mr. Robin Williams
Athro Gwaith Coed
Ysgol Brynrefail 1975-76

FORE Llun, Rhagfyr 13eg daeth y newydd brawychus o sydyn am farwolaeth Mr. Robin Williams yn ystod y nos. Yr oedd wedi bod yn cwyno ers tair wythnos neu fwy ond nid oedd dim wedi ein paratoi ar gyfer y newydd syfrdanol yma. Bachgen o Lanberis oedd Mr. Williams a disgybl o hen Ysgol Ramadeg Brynrefail. Y mae lluniau ohono yr adeg honno yn ŵr ifanc golygus a heini - yn bencampwr ar y maes pêl-droed ac yn cymryd diddordeb mewn chwaraeon ac athletau o bob math. Parhaodd y diddordeb yma hyd ddiwedd ei oes. Wedyn aeth i'r Llynges yn ystod y rhyfel, ac yna cafodd hyfforddiant fel athro. Ymhen amser cafodd swydd yn ysgol Llanrug pan oedd dan yr hen drefn a disgyblion yn aros yno hyd yn bymtheg oed.

Wedi agor ysgol newydd Brynrefail yn 1956 fe'i symudwyd yno yn 1957 i fod yn athro gwaith Metel. Sefydlodd ei hun ymhen dim fel athro effeithiol a phoblogaidd. Fe fu ef a Mr. W. Land yn cydweithio'n hapus hyd ymddeoliad Mr. Land yn 1974. Pryd hynny symudodd Mr. Robin Williams i'r Adran Gwaith Coed.

Oherwydd mai rhan o'i waith oedd trefnu'r plant i eistedd yn y Neuadd bob bore ar gyfer y Gwasanaeth yr oedd yn adnabod y plant i gyd er mai'r bechgyn yn unig a ddysgai. Yr oedd yn deall plant yr ardal hon i'r dim ac yn cymryd diddordeb ymhob agwedd o'u bywyd. Nid oedd yn ddisgyblwr cas o gwbl ond un hynod o effeithiol, a medrai ddefnyddio hiwmor a chellwair wrth drin plant yn y modd mwyaf celfydd. Yn wir yr hyn a fyddwn ni fel ei gyd-athrawon yn ei gofio orau ac efallai yn ei golli fwyaf fydd hiwmor a sirioldeb Robin Williams. Ef, ran amlaf, fyddai canolbwynt unrhyw brofocio direidus ymysg yr athrawon ac ef fyddai'r un a fedrai stôr o hanesion digrif.

Yr oedd ei wreiddiau'n ddwfn iawn yn yr ardal a'i adnabyddiaeth o bobl y cylch yn eang. Er ei fod yn cael hwyl yn adrodd hanesion amdanynt yr oedd ei gydymdeimlad sylfaenol tuag atynt a'i hoffter ohonynt yn amlwg.

Ac y mae hyn yn dod â mi at y pwynt olaf, sef mai cymeriad dwys ydoedd, a gymerai bethau o ddifrif. Yr oedd lles ei deulu, lles yr ysgol, lles ei ardal yn bethau a faliai yn angerddol amdanynt er na fyddai yn dangos hynny yn uniongyrchol ond ar adegau prin ond dadlennol. Fe wyddom drwy awgrymiadau cynnil gymaint oedd ei lawenydd yn llwyddiant ei blant, Gareth a Janet, dau gyn-ddisgybl annwyl iawn o'r ysgol hon a chymaint ei ofal amdanynt hwy a'i briod. Amdanynt hwy yr ydym yn meddwl yn awr gan sylweddoli, er cymaint colled yr ysgol hon, fod eu colled hwy yn fwy o lawer. Estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf atynt.

W. Elfyn Thomas,
Prifathro Ysgol Brynrefail

YSGOL BRYNREFAIL

GWASANAETH CAROLAU

Nos Wener, Rhagfyr 17eg, cynhaliwyd gwasanaeth carolau llwyddiannus yn neuadd yr ysgol. Cafwyd rhaglen amrywiol dros ben, gan gynnwys canu, dawns ddrama, darlenniadau, cyflwyniad llafar a "tableau Nadolig". Rhoddwyd bendith ar y cyfarfod gan y Parch. Eryl Davies, Bethel. Gwnaethpwyd casgliad at achos da lleol.

PARTION NADOLIG

Yr wythnos yma cafwyd nifer o bartion Nadolig yn yr ysgol. Yr oedd disco i'r dosbarthiadau cyntaf a disco i'r dosbarthiadau 2ail a 3ydd yn ystod oriau'r ysgol. Nos Lun cafwyd Sosial Y Chweched Dosbarth, gyda phlant dosbarthiadau y 5ed a'r 6ed yn cael gwadd iddi.

Daeth plant dan anfantais Ysgol Pendalar, Caernarfon, i'r ysgol yr wythnos yma hefyd i gael Parti Nadolig a drefnwyd iddynt gan blant y 6ed dosbarth Cafwyd yr arian i dalu am y Parti hwn allan o gronfa gweithgareddau'r 6ed dosbarth, ac yr oedd plant Pendalar yn ddiolchgar dros ben iddynt am yr haelioni a ddangoswyd tuag atynt.

DISCO LLWYDDIANNUS

Yr wythnos diwethaf, aeth nifer o blant yr ysgol i "Ddisco Brân" yn Ysgol Dyffryn Ogwen Bethesda. Cafwyd noson lwyddiannus a chyfle i adnabod ffrindiau newydd mewn ysgol arall.

YSGOL DOLBADARN LLANBERIS

1. Bu Tîm Pelrwyd yn fuddugol yn eu gêm yn erbyn tîm o Ysgol Penygroes.
2. Bu Tîm Peldroed yn fuddugoliaethus yn eu gêm hwythau yn erbyn tîm o Ysgol Penygroes.
3. Mae y Tîm Pelrwyd wedi mynd i'r Rownd Derfynol o Gwpan Yr Urdd ar ôl curo Ysgol Borthygest.
4. Bu Côr yr Ysgol yn canu carolau ym Mhlas Pengwaith Llanberis.

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i'n cwsmeriaid a chyfeillion
oddi wrth

EaB.KNOX
Siop Elidir

Brynrefail

Ffôn:

LLANBERIS 569

YSGOL GYNRADD LLANRUG



Y plant a fu ar gwrs ail-iaith yn Llangrannog yn ddiweddar. Plant ysgol Llanrug gyda'u hathro Mr. D. Idriswyn Roberts.



Mrs. Mary Lloyd Williams yn rhannu'r pamffledi 'Gair i Chi' yn Ysgol Gynradd Llanrug ddydd Llun. D'wedodd Mrs. Williams stori wrth y plant hefyd.

5. Cynhaliwyd Disco yn yr Ysgol i'r plant hynaf pryd y gwahoddwyd plant o Ysgol Gwaen Gynfi Deiniolen nos Lun, Rhagfyr 20. Roedd y Disco yng ngofal Mr.

Gwilym Evans.

6. Cafwyd Ffilmiau gan Mr. Gwyndaf Jones, Swyddog Diogelwch ar y Ffyrdd nos Fawrth Rhagfyr 21.

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

C & D.WAGER
Llythyrdy
BRYNREFAIL

Ffôn: LLANBERIS 241

Eich Stor Leol Deuluol ar gyfer
Papurau Newydd Bwydydd Ffrwythau
Dilladaeth Llysiau Melysion Tybaco

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU
AM 1977
oddi wrth
W. J. DAVIES

MODURDY'R WYDDFA

LLANBERIS

A.A. R.A.C. M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos

10%

ODDI AR

BAPUR WAL a PHAENT LEYLAND
A JELLIPEX
yn

E. WILSON HUGHES

84 Stryd Fawr

LLANBERIS FFÔN 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD
DDA I BAWB YN Y FRO

BETHEL

DIOLCHIADAU

Dymuna Mr. a Mrs. Idwal Morris,
Perl y Rhos ddiolch i bawb am eu
dymuniad da, yr anrhegion a'r
cardiau a dderbyniwyd ar ôl
genedigaeth Llinos Angharad.

DYMUNIADAU GORAU:

i Mrs. M. Jones, 1 Penrjos. Bydd
Mrs. Jones yn 92 oed ar Ionawr
3ydd.

CYDYMDEIMLO

Mae'n cydymdeimlad â Mrs. M.
Thomas, 13 Bro Rhos wedi iddi
golli ei chwaer yn ddiweddar.
'Roedd ei chwaer yn byw yn
Llundain.

LLONGYFARCHIADAU

i Mr. Alwyn Jones, Baladeulyn, ar
ei ddyrchafiad gyda Banc y
Midland. Mae Mr. Jones eisoes
wedi dechrau yn ei swydd newydd
ym manc Cerrig y Drudion.

YR URDD

Bydd y bws i'r Pantomeim yn
cychwyn o'r 'Refail am chwarter i
saith nos Fercher Rhagfyr 29ain
ac yn codi aelodau'r Urdd ger Bro
Rhos a'r Eglwys.

Bydd tymor nesaf yr Urdd yn
dechrau nos Wener Ionawr 14eg
pryd y dangosir ffilmiau i'r plant
yn y Neuadd am 6 o'r gloch.

LLONGYFARCHIADAU

i Gwenno Bebb, Llwyn Eithin,
Julie W. Roberts, Karina a Jessica
Jane Williams, Cefn y Gwynt ar eu
llwyddiant yn eu haroliadau piano
yn ddiweddar.

W.E.A.

Am 7 o'r gloch ar y 14eg o Ionawr
bydd y Dr. Eirwen Gwynn yn

dechrau cyfres o chwech o
ddarlithoedd yn yr Ysgol ar y
testun lechyd a Maeth.

MERCHED Y WAWR

Cafwyd noson llwyddiannus iawn
yn yr Ysgol ar yr 8ed o Ragfyr
pryd y rhoddwyd ddetholiad am y
Nadolig ar lafar ac ar gan. Cafwyd
swper wedi ei baratoi gan y
pwyllgor. Y noson ganlynol ail
berfformiwyd y detholiad yn y
Gymdeithas Lenyddol.

Nos Fercher y 12fed o Ionawr
bydd noson o gadw'n ystwyth.

LLONGYFARCHIADAU

i ddwy o enethod ieuainc mewn
llwyddiant cerddorol yn
ddiweddar, Bu Beth Jones, Tŷ'r
Ysgol, yn llwyddiannus yn
arholiad canu'r piano Gradd 1V a
derbyniodd Menna Deulyn
Williams, Minffordd anrhydedd yn
arholiad Gradd V1. Cynhaliwyd
yr arholiadau dan nawdd Coleg
Cerddorol y Drindod, Llundain.

PENNILL BACH AT Y NADOLIG

Mynd mae'r flwyddyn yma eto,
A'i helyntion gyda hi,
Minnau hefyd sydd yn myned
Fel y ddeilen ar y lli;
O, rwy'n ofni y prysurdeb,
Llesg ac egwan ydwyf fi,
Ond fe anwyd draw ym Methlem
Un wna dorri grym y lli.

Elin Parry
(93 oed)
Y RHYL

Dymuna
Mr a Mrs. G. M. EVANS

CASTLE GIFT SHOPS LTD.

Llanberis (379) Caernarfon (3158)

ddiolch yn fawr i'w cyfeillion a'u cwsmeriaid
am bob cefnogaeth yn ystod 1976
gan ddymuno'n dda i bawb yn 1977

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiant

Llanberis

FFÔN: LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL CLWYD

ADRAN DRAMÂU

Anfonwch 'rwan am ein
rhestr o ddramâu — Dros 80 o
ddramâu un act a 35 o
ddramâu hir.

Newydd o'r wasg : dwy
ddrama fer gan Mrs. Nansi
Pritchard:

A'R BORE A FU IECHYD DA

Am swm isel, medrwrch
fenthg y dramâu mewn stoc
neu eu prynu.
Croeso cynnes i chwi ymweld

a'r Swyddfa er mwyn dewis
eich drama.

GWASANAETH DYBLYGU

Mae'r Cyngor hefyd yn
cynnig gwasanaeth teipio a
dyblygu i fudiadau gwir-
foddol, Capeli ac Eglwysy.
Ceir manylion am y telerau
rhesymol oddi wrth:—

Charles A. Hogg,
Prif Swyddog,
Cyngor Gwasanaethau Gwir-
foddol Clwyd,
Ffordd yr Orsaf,
Rhuthun,
Clwyd.

Ffôn: Rhuthun 2441.

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD
DDA

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn: LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU GWRESOGI OLEW



BP heat
A SHELL-MEX



Dim un deag rhy fychan,
Dim un deag rhy fawr.

Athro'n Weinidog Jerusalem

Ar Ionawr 19eg yr ordeinir Gweinidog ar Capel Jerusalem (Pentre Castell), Llanberis. Gweinidog a fydd hefyd yn athro ysgol. Tybed ai Huw John Hughes fydd yr unig weinidog yng Nghymru gyda gradd B.Ed.? Bydd Mr. Hughes yn dechrau fel Dirprwy Brifathro Ysgol Penybryn, Bethesda ym mis Medi 1977 ac yn bugeilio Capel Jerusalem yn ogystal. Rhoddodd Pwyllgor Addysg Gwynedd sêl eu bendith ar y fenter.

Ganwyd Mr. Hughes ym Mynydd Llandegai ar aelwyd grefyddol. Eglwyswr oedd hyd at rhyw bedair blynedd yn ôl, ond rhoddodd ei fryd ar fynd i'r Weinidogaeth pan yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Bethesda. Bu'n pregethu er pan oedd yn 17 oed. Ond mynd yn athro wnaeth yn y diwedd. Bu'n athro yn Ysgol y Garth am flyyddyn ac yna yn Ysgol Glancegin, Bangor am bum mlynedd. Ar hyn o bryd mae'n gweithio fel Swyddog Maes ar Gynllun y Cyngor Ysgolion ar y Gymraeg fel Iaith Gyntaf yn yr Ysgol Gynradd.

DIDDORDEBAU

Nid yw'n ddyn dieithr i Lanberis. Bu'n 'reffario' sawl gêm bêl-droed yno yn y gorffennol.

Mae'n reffari Dosbarth A. Ei ddiddordebau eraill yw Byd Natur yn enwedig astudiaeth o Adar a Gloynnod Byw. Mae wedi cyfrannu gwybodaeth i'r *Atlas of British Lepidoptera*. Mae hefyd yn hoff iawn o Ddrama. Ar hyn o bryd mae'n gwneud gwaith ymchwil M.A. ar "Ann Griffiths".

Pan ofynwyd i Huw John Hughes paham y cymrodd y cyfrifoldeb ychwanegol yma o fugeilio Capel Jerusalem, atebodd, "Gofynnodd llawer o enwadau i mi fynd yn weinidog arnynt, ond gwrthodais. Pan ofynnodd aelodau Jerusalem i mi, cytunais, oherwydd, yn syth, fe dyfodd rhyw garwriaeth rhyngof a'r eglwys a'i phobl na allaf byth ei esbonio."

LLANRUG

PARTI NADOLIG PLANT CAPEL MAWR

Nos Lun am 5.30 cafwyd Parti Nadolig y Plant pryd y daeth Siôn Corn a rhoi anrheg i 96 o blant yr Ysgol Sul. Yr oedd y chwaraeon yng ngofal Mrs. Eirlys Pierce, Swyn yr Awel. Balch oeddem o gael cwmni un sy'n garedig iawn wrth y plant ar hyd y blynyddoedd, sef Mr. Stanley Roberts, B.Sc., Glanffynnon (Eryri gynt). Trefnwyd y bwyd gan athrawon yr Ysgol Sul a gofaliwyd am y Goeden Nadolig gan y Gobeithlu. Diolchwyd i bawb am eu cymorth parod gan y Parch. W.O.Roberts.

Y BAND

Bu'r Band yn brysur cyn y Nadolig. Cafwyd Noson Tombola yn yr Ysgol Gynradd (nos lau) ac 'roedd y noson yn agored i bawb.

SWPER BLYNYDDOL

Cynhaliwyd Swper Blynyddol y Band ym Meddgelert nos Wener. Yr oedd y noson i aelodau'r Band a'u cyfeillion.

FFAIR NADOLIG

Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn er budd Clwb Blodau'r Grug yn Ysgol Brynrefail yn ddiweddar. Gwnaed elw sylweddol a dymuna Cadeirydd y Clwb ddiolch i Brifathro Ysgol Brynrefail a staff y gegin am eu cydweithrediad parod yn yr ymgyrch. Fe ddiolchwn hefyd i bawb a fu'n gweithio i wneud y fenter yn llwyddiant.

GWASANAETH CAROLAU

Cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau Clwb Blodau'r Grug yng Nghapel Hermon yn ddiweddar. Yr arweinydd oedd y Rheithor a chaed canu ardderchog. Yr organyddes oedd Mrs. K. Williams, Ceunant. Yn ystod y gwasanaeth gwnaed coffa am y diweddar William Ellis

Griffiths, ysgrifennydd y Clwb, ac adroddwyd englynion gan Mrs. M. Lloyd Williams.

GWASANAETHAU NADOLIG

Bydd gweinyddiad o'r Cymun Bendigaidd yn Eglwys Sant Mihangel am 11.30p.m. nos Wener, 24ain Rhagfyr (noswyl y Nadolig) ac am 10.15a.m. fore'r Nadolig yn Gymraeg, ac yn Saesneg am 11.15a.m. Bydd drama'r plant am 2.30p.m. ddydd Sul, 2 Ionawr ac am 6.00p.m. yr un noson bydd Gwasanaeth Carolau.

MARW

Drwg gennym ddeall am farwdisfyd Mr. R.Williams, priod Sister B.Williams, Gwydryn Newydd, Pontrhyallt, ac estynnwn ein cydymdeimlad llwyrach â hi a'r plant a'r teulu oll yn eu galar. Llewyrched goleuni'r Nadolig trwy dduwch eu galar. Estynnwn hefyd ein cydymdeimlad â theulu Mr. Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, yn eu profedigaeth lem. Duw a fo gyda chwi.

ROBIN WILLIAMS, GWYDRYN NEWYDD

Ar adeg y Nadolig mae marwol-athau yn taro'n galetach nag ar unrhyw amser arall. 'Doedd y Nadolig hwn ddim gwahanol ac fe frawychwyd yr holl fro wrth glywed am farwolaeth Robin, yn greulon o ifanc: 55 mlwydd oed.

Brodor o Lanberis ydoedd a bu'n gwasanaethu ar y môr ac yn y llynges yn ystod y Rhyfel diwethaf. Dechreuodd ei yrfa fel athro yn Rhuthun; oddiyno daeth i Ysgol Ganol Llanrug, ac wedyn i Ysgol Brynrefail. Yn yr ysgol hon bu'n athro Gwaith Coed a Gwaith Metel. Heblaw bod yn hynod o fedrus mewn crefftau yr oedd yn ŵr athletaidd iawn,

yn hoff o chwaraeon o bob math ac yn gerddwr mawr.

Mae'r fro yn cydymdeimlo gyda'r teulu, yn enwedig ei wraig, ei fab, Gareth, a'i ferch, Janet. Heb os, bydd yn chwith ar ei ôl.

CYMDEITHAS UNDEBOL

Nos Lun, Rhagfyr 13eg, cafwyd sgwrs ddiddorol yng Nghymdeithas Undebol Bryngwyn, Hermon, Pontrhyallt a Thanycoed gan Mr. Rhodri Prys Jones, Caernarfon, yn ymwneud â'i waith yn yr Archifdy. Llywyddwyd gan Mrs. Jones Evans a thaliwyd y diolchiadau gan Mr. T.W.Thomas.

Mewn cyfarfod blaenorol gyda Mrs. Inigo Jones yn llywyddu caed sgwrs a ffilmiau ar Wlad Canan gan Mr. Robert Williams, Rhosbodruall. Diolchwyd iddo gan Miss M.Humphreys a Mr. Emrys Owen.

FFAIR NADOLIG

Bu Ffair Nadolig lwyddiannus yng Nghapel Mawr yn ddiweddar, wedi ei threfnu gan y chwiorydd. Rhoddwyd y coffi gan Mrs. Cadwalader, Dolwyn, Glanffynnon; Mrs. Williams, 10 Glanmoelyn; Mrs. Griffith, 19 Glanmoelyn; Mrs. Parry, Morannedd; Mrs. Williams, Tremallt; Mrs. Jones, Madryn; Mrs. Jones, Y Fedwen. Dymuna Mrs. W.O.Roberts ddiolch i bawb yn yr ardal a fu'n helpu i gefnogi'r ffair ac a fu'n paratoi ar ei chyfer. Bwriedir cynnal y ffair yn flynyddol o hyn ymlaen.

GOBEITHLU CAPEL MAWR

Nos Lun, Tachwedd 22ain cafwyd cyfarfod o'r uchod. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Gwawr Owen, Rhos Elan. Dysgwyd carolau newydd i'r plant gan Mrs. Eirlys Pierce, Swyn yr Awel, a chafwyd noson addysgiadol iawn. Llywyddwyd gan Mrs. W.O.Roberts, Llys Eiddon.

Nos Lun, Tachwedd 29ain, treuliodd plant y Gobeithlu noson i'w chofio yng nghwmni Mr. Stanley Roberts, Glanffynnon, sydd ar ymweliad â'i fro enedigol o Brunei. Dangosodd ddarluniau a sleidiau o rannau o Asia ac Affrica, a rhoddodd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol iawn ar bobl y gwledydd y bu'n byw ynddynt. Dechreuwyd y cyfarfod trwy ddefosiwn gan Aled Jones, Brynheli. Croesawyd Mr. Roberts gan y Llywydd, y Parch. W.O.Roberts, a diolchodd iddo am ei wasanaeth gwerthfawr. Cyflwynodd Mr. Stanley Roberts, yn ôl ei arfer, rodd anrhydeddus ar gyfer Parti Nadolig y plant. Derbyniwyd rhodd werthfawr arall at y parti oddi wrth Mrs. Myra Bryn Clarke, Y Fedwen. Cyfeiliwyd yn y cyfarfod gan Mrs. Catrin Roberts, Tŷ Capel. Yr oedd y projector yng ngofal Mr. John Williams, Gweledfa.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR

Cafwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos Fawrth, Tachwedd 23ain o dan lywyddiaeth Mr. John Wyn Owen, Llain Delyn. Yr oedd Cymdeithas Lenyddol Bethel wedi ymuno â ni mewn gêm o ateb cwestiynau o dan arweiniad Mr. Rol Williams, Waunfawr, yn cael ei gynorthwyo gan Mr. Ifor Hughes, Caeathro. Cafwyd noson ddifyr ac adeiladol gyda chystadlu brwd. Tîm Bethel a orfu o

fewn dau farc. Yr oedd y marciau yng ngofal Mr. Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol. Diolchwyd gan y Parch. W.O.Roberts, a chefnogwyd y diolch gan Mr. T. Evans, Lloc. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Rhagfyr 7fed pryd y bydd plant Ysgol Gynradd Llanrug yn cyflwyno cyngerdd.

PLAID CYMRU

Cyfarfod Blynyddol oedd cyfarfod mis Tachwedd o'r Gangen. Etholwyd y swyddogion a ganlyn: W.A.Jones (Cadeirydd); Gwyndaf Jones (Is-Gadeirydd); Emlyn Jones (Trysorydd); Leslie Larsen (Ysgrifennydd). John Roberts, Gareth Roberts, Twrog Elis Jones (Trefnwyr Adloniant). G.M.Jones (Trefnydd Aelodaeth). Raymond L. Jones, Delyth Jones (Casglwyr aelodaeth). Ar y Pwyllgor bydd Selwyn Williams, Tom Evans, Rhian Jones, Annwen Jones, Walter Evans ac Olwen Llywelyn.

CINIO NADOLIG

Nos lau, Rhagfyr 9fed, trefnwyd Cinio Nadolig gan Bwyllgor y Carnifal i oedolion Llanrug, wedi ei baratoi gan ferched Cegin yr Ysgol Gynradd. Cawsant wled ardderchog. Y Parch. W.O. Roberts gymerodd y rhan ddefosiynol. Rhoddwyd ¼ pwys o de yn anrheg i bob un. Hefyd tua thrigain anrheg (rhif lwcus). Caed rhaglen amrywiol o safon uchel gan rai o Barti Eryri a Mr. Rol Williams yn arwain, ac yn rhoi eu gwasanaeth am ddim. Cynigiwyd y diolchiadau gan Mr. Cledwyn Williams a Mr. J.G.Jones yn ategu. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch am bob rhodd a chymorth a gaed er sicrhau llwyddiant y cyfan.

PWLL MOELYN AC YSGOL GLAN MOELYN

Fel y gwyddoch, mae ymgyrch wedi dechrau i hel arian tuag at ddatblygu Pwll Moelyn ac Ysgol Glan Moelyn. Bwriedir helpu'r ymgyrch trwy gasglu hen bapurau newydd a chylchgronau. Mae £15 y dunnell i'w cael am hen bapurau newydd sych, a £12 y dunnell am hen gylchgronau sych.

Os ydych yn byw yn Llanrug ac yn fodlon helpu, a fuasech cystal â dechrau hel rwan. Bwriedir cael help gan blant hynaf Ysgol Gynradd Llanrug i gasglu'r papur ar y bore Sadwrn cyntaf o bob mis. Bydd y casglad cyntaf ar fore Sadwrn, Chwefror 5ed, a'r cwbl a ofynnir fydd i chwi benthyrru'r papur a'i adael o flaen eich tŷ.

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans

CYFARCHION Y TYMOR
a
DYMUNIADAU GORAU AM 1977
oddi wrth

C.&M.OWEN
TREFLYN STORES
BETHEL

Y FELINHELI 237

TAFARN GORS BACH
LLANDDEINIOLEN

Dymuna
Bob, Mair, Mrs. Jones a'r staff
i'w holl gyfeillion a chwsmeriaid,
hen a newydd

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD RAGOROL

CYFARCHION
NADOLIG
O FETHEL
A DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

TRYFAN
GARAGE
& RHIWEN
SERVICE
STATION

DEINIOLEN (Llanberis 250)

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD
DDA
I'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oll
oddi wrth

GWILYM WYN JONES
SWYDDFA'R POST
BETHEL

Ffôn : Felinheli 261

BWYDYDD MELYSION PAPURAU NEWYDD

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA
oddi wrth

M. WILLIAMS

BRYN
DAIRY
Saron
Bethel

Ffôn : Felinheli 417
Cyflenwyr Llefrith,
Hufen ac Wyau
ym Methel, Caernarfon
a Chaeathro

Blwyddyn Newydd—Car Newydd



1977

LLE
ARALL
OND...

NADOLIG
LLAWEN
A
BLWYDDYN
NEWYDD DDA
I CHWI OLL

GAREJ MINFFORDD



Morris

BETHEL

PERCHENNOG T.R. & S. EVANS
FFÔN
Y FELINHELI **451**



RHAGOR o
GYFARCHION
NADOLIG
LLANBERIS
(Mae eraill yma ac acw
hyd y papur)

DEWCH I

**SIOP
THOMAS
PRITCHARD
IRONMONGER**

BIRMINGHAM HOUSE
LLANBERIS Ffôn 206

am nwyddau a chelfi
a bob math i'r cartref

.....

Carpedi, leino, Paent
Valspar a Crown
Papur papuro, Tsieni,
Nwyddau Trydan a llawer
MWY.....

OLL AM BRISIAU
RHAD!

BARGEINION TOPDEC
bob mis
Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i chwi oll

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD
LWYDDIANNUS
oddi wrth

J. JONES

**ERYRI
MEAT
STORES
LLANBERIS**
DEWCH YMA AM
GIG BLASUS O BOB MATH

NADOLIG LLAWEN
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Mr. a Mrs. W. JONES
Gwen ac Alwena

**Padarn
Stores
LLANBERIS**

Llanberis 496

BARGEINION

Mace

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I BAWB
oddi wrth
CLIFFORD a DIANA

**Swyddfa'r Post
DEINIOLEN**

Ffôn : LLANBERIS 283



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

**CO-OP
Deiniolen**

Ffôn : LLANBERIS 214

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH
TRWY GYDOL 1976



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA

ODDI WRTH

**E.W.&M.WILLIAMS
Y BECWS
DEINIOLEN**



Ffôn : Llanberis 232

BARA FFRES TEISENNAU BLASUS!
Arbenigwyr ar deisennau priodas
Dosberthir bob Llun, Mercher a Gwener
yn Neiniolen, Dinorwig a Fachwen

CYFARCHION
Y TYMOR
A'R
DYMUNIADAU GORAU
AM 1977
oddi wrth

GWYN OLIVER JONES

**Tafarn
Datws
Arfonia**

DEINIOLEN



SGLODION DIGURO!



DYMUNA
CLARICE a MERFYN

**BULL INN
DEINIOLEN**

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
i gwsmeriaid a
chyfeillion oll

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda. Diolch am eich
cefnogaeth yn 1976. Dym-
uniadau gorau ar gyfer 1977
oddi wrth

BOB A RUTH PHILLIPS

**WELLINGTON
INN**

Deiniolen

Ffôn : Llanberis 227



Cwrw blasus — chwerw ar
ei orau o gasegenni pren

CHWARAEON

Peldroed LLANBERIS



'DOEDD dim gêm y Sadwrn diwethaf, y deunawfed o Ragfyr, gan fod cyflwr cae Llanberis ym marn y rheolwr yn beryglus. Mae'n wir fod y rheolwr wedi ei adael yn bur galed ar yr wyneb ac nad y Sadwrn cyn y Nadolig yw'r adeg mwyaf delfrydol i dorri coes, ond byddai dau bwynt gan y Brifysgol wedi bod yn anrheg digon derbyniol.

BETHESDA 1 LLANBERIS 2

Ar yr 4ydd o'r mis enillwyd dau bwynt annisgwyl braidd ym Methesda. Mae'r 'How-Gets' yn ail yn y gynghrair ond ar y Sadwrn hwnnw Llanberis oedd y tîm gorau o ddigon — Ken Evans a Ray Harding yn disgleirio, ac Iwan Evans yn sefyll allan fel y dyn gorau ar y cae. Ray ac Iwan a sgoriodd y ddwy gôl.

LLANBERIS 3 PILKINGTON 3

Ar yr 11ed o'r mis daeth tîm Pilkington o'r mis Elwy i Lanberis i chwarae yn nhrydedd rownd Cwpan Iau Gogledd Cymru.

Mae safon y chwarae yng Nghynghrair Clwyd yn uwch na'r hyn mae

Llanberis yn gyfarwydd ag o fel arfer, ac 'roedd hon yn dipyn o sialens iddynt.

Rhyw gêm ddi-fwyd oedd hi yn yr hanner cyntaf, a'r unig gôl yn dod gan Gwilym Williams. Bu Gwilym yn sefydlog yn nhîm Llanberis ers blyneddau bellach, ond mae'r un mor gadarn yng nghanol y cae ag y bu erioed, ac yn dangos i'r blaenwyr sut i sgorio yn aml.

Yn fuan yn yr ail hanner sgoriodd Ray Harding ail gôl Llanberis a themlai pawb eu bod ar y ffordd i'r rownd nesaf. 'Roedd syniadau eraill gan Pilkington, a sgoriwyd dwy gôl yn fuan ganddynt i'w gwneud yn gyfartal. 'Roedd hi'n gêm gyffrous erbyn hyn, y ddau dîm yn ymdrechgu am y gôl fuddugol. I Barry Pitts y daeth hi ar ôl gwaith da gan Iwan Evans a dim ond ychydig o funudau ar ôl i'w chwarae, ond yn ôl y daeth Pilkington eto, trawyd y bêl yn galed gan un o'u blaenwyr a saethodd dros ugain llath a'i phlannu yn y rhwyd.

Dyna hi'n gyfartal eto ac mae'n rhaid llongyfarch y tîm o Glwyd a'r ffordd yr achubwyd y gêm ganddynt. Mae'n amheus gen i a fydd hynt Llanberis mor llwyddiannus yn yr ail-chwarae, ond pob lwc iddynt.

Cystadleuaeth Nadolig

SIOMEDIG oedd yr ymateb i'r llun o'r hen dîm o Fethel a ddangoswyd yn *Eco*'r mis diwethaf, ac mae amheuaeth o hyd am enwau'r mwyafrif o'r chwaraewyr. Beth am roi cynnig arall arni — 'rwy'n siwr fod rhai ohonoch yn cofio.

Dyma hen lun arall.



"Wolves 1921" sydd ar y bêl, ond gwyddom mai tîm o Lanberis ydi o. Pafn Wolves? Nid y 'Teigars' yw enw traddodiadol timau Lanberis?

Bydd gwobr o £1 i'r un cyntaf i yrru'r enwau i mi, ynghyd ag eglurhad am yr enw bleiddaidd.

Anfonwch at Dafydd Evans, Sycharth, Bryn Eglwys, Penisarwaun.

TAIR GÔL I'R SIR

'ROEDD tri bachgen o Ysgol Brynrefail yn nhîm peldroed De Arfon ar yr 11ed o'r mis.

Arfordir Clwyd oedd yn eu gwrthwynebu ar gae Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, a bu'r tri yn amlwg yn y chwarae.

'Doedd fawr o ddewis rhwng y ddau dîm yn yr hanner cyntaf, a gôl gan Gwyndaf Jones o Ddeiniolen a'i gwnaeth yn 1 — 0 ar hanner amser.

Yn fuan yn yr ail hanner sgoriwyd dwy arall gan Dde Arfon, a Bryn Hughes o Seion a rhan bwysig yn y chwarae a arweiniodd i fyny iddynt.

Gwyndaf a sgoriodd y ddwy gôl olaf i'w gwneud yn 5—1, un ohonynt wedi ei tharo'n galed dros ddeng llath ar hugain.

'Roedd Dafydd Evans, yntau hefyd o Ddeiniolen, yn chwarae ei gêm gyntaf i'r tîm.

ADDEWID

Deallaf fod nifer o sgowtiaid o dimau mwyaf Cyng-hrair Lloegr â'u llygaid ar Gwyndaf. Mae'n fachgen tal ac yn gryf o'i oed, — mae pob agwedd o'r gêm yn dod yn naturiol iddo ac y mae trwyn da ganddo am y gôl. Gwnaeth ei farc eisoes fel un o chwaraewyr gorau Cyng-hrair Gwryfai, ac mae'n ymddangos ei fod yr un mor llewyrchus yn nhîm y Sir. Pob lwc iddo — gobeithio y gwnaiff o'r 'Grêd', ynte.

GWOBRAU GYMNASTEG

BU pedwar ar bymtheg o fechgyn y flwyddyn gyntaf yn Ysgol Brynrefail yn llwyddiannus gan ennill gwobr gradd 4 Cymdeithas Gymnasteg Prydain Fawr (BAGA).

Y mae pedair gradd i anelu atynt, ac mae'n sicr fod y graddau 4 a 3 o fewn cyrraedd y mwyafrif o blant yr ysgolion cynradd, petai'r cyfleusterau ynddynt ar eu cyfer.

Mae'n rhaid cyflawni deg prawf am y wobr gradd 4, ac mae'n rhaid cyrraedd safon ddigonol mewn o leiaf 6 ohonynt i fod yn llwyddiannus. Yr unig offer a ddefnyddir yw'r boc a'r mat, a gellir perfformio y mwyafrif o'r ymarferion heb offer o gwbl.

Mr. Dic Parry, athro Ymarfer Corff yr Ysgol fu'n eu hyfforddi, a'r rhai llwyddiannus oedd David Aagaard, John Cyster, Keith O. Evans, Dafydd Hughes, Bryn Jones, Owen Eilir Jones, Aled Morris, Gareth Owen, Ian Pritchard, Nigel Simmonds, Paul Thomas, Philip Thomas, Adrian Wakeham, Adrian Williams, Barry Williams, Bryn Williams, Michael J. Williams, Ian Williams a John Williams.

ATGOFION O'R HAF

'Rwy'n deall fod y tîm hwn o Lanberis, a gollodd i dim Ysgol Brynrefail yn rownd derfynol cwpan Cynghrair yr Haf yn flin na fu eu llun yn yr *Eco* tra 'roedd llun y buddugwyr yn llenwi dwy golofn ynddo.

Wel 'rhen hogia — dyma chi, — craffwch — colli wnaethoch chi cofiwch — a'r sgôr eto? 6 — 3.



I SGIO I'R ALBAN

BYDD pymtheg o ddisgyblion Ysgol Brynrefail, ynghyd a Mrs. M. Wroe, yr athrawes ymarfer corff, yn mynd i Aviemore ddechrau'r flwyddyn am wythnos o wyliau sgio.

Bu'r criw yn ymarfer ers misoedd ar y llethr plastig ym Mhlas y Brenin, a deallaf fod safon eu sgio yn bur uchel.

Yn Aviemore bydd pob cyfleustra ar eu cyfer, yn cynnwys eira, fe obeithir, a chyda'r nos cyfle ar y llawr sglefrio, i nofio i wyllo ffilmiau neu i ddawnsio.

PELDROED LLANRUG



LLANRUG 2 TALYSARN 2

'ROEDD dwy problem yn wynebu Llanrug ar y 4ydd pan fu Talysarn yn ymweld ag Eithin Duon. 'Roedd cyflwr y cae mor ddrwg — yn eithriadol o galed mewn mannau — fel ei bod yn amheus a fuasai'r rheolwr wedi caniatáu chwarae'r gêm onibai fod tywod wedi ei wasgaru o flaen y ddwy gôl.

Y RHEOLWR A'R IS-GADEIRYDD YN CHWARAE

Y problem arall oedd eu methiant am yr ail Sadwrn yn olynol i droi tîm llawn allan a bu'n rhaid i'r rheolwr a'r is-gadeirydd chwarae iddynt.

Symudwyd Rheon Thomas o'r rheng ôl i chwarae fel blaenwr, a'i gôl o fu'r gwahaniaeth rhwng y ddau dîm yn yr hanner cyntaf.

Yn yr ail hanner, llwyddodd Rheon eto gan roi Llanrug ymhellach ar y blaen. Daeth eilydd Talysarn ar y cae a gwrthwyd eu cefnwr tal, Paul Davies, ymlaen, a dyna ddechrau ymladd yn ôl. O fewn ychydig funudau 'roeddynt wedi sgorio eu gôl gyntaf ac yn fuan wedyn daeth eu hail o gic gornel.

O gysidro'r tywydd, 'roedd hwn yn ganlyniad digon teg.

NEFYN 0 Llanrug 12

Dau dim ar ddau begwn eithaf y gynghrair yn Nefyn ar yr 11eg, a'r sgôr yn adlewyrchiad o hynny. Mae J. Cadwaladr yn amlwg yn hoffi chwarae yn erbyn Nefyn — fe sgoriodd dair — y rhai cyntaf iddo ers gêm gynta'r tymor, a honno hefyd yn erbyn Nefyn. Aeth J. Ian Jones un yn well gan sgorio pedair — (12 gôl mewn 6 gêm — ac

wedi sgorio ym mhob un!) Yn yr ail hanner sgorio gôl bob pum munud, a Llanrug yn cyrraedd eu 50 gôl yn y gynghrair, er mai un o chwaraewyr Nefyn a'i sgoriodd!

Rhannwyd y pedair gôl arall rhwng Hefin Pritchard a Ken Owen.

ABERGELE UTD. 1 LLANRUG 0

Rhagfyr 18.

Ail rownd Cwpan Gyfryngol Gogledd Cymru, a gêm dda iawn. 'Roedd hi'n gyfartal iawn yn y hanner cyntaf, gydag Abergele'n chwarae i lawr y llethr tuag at y môr. Llwyddodd John Ian Jones i roi'r bêl yn y rhwyd ychydig cyn yr egwyll ond dyfarnwyd ei fod yn camochri. 'Roedd Abergele, o gynghrair gyntaf Clwyd, yn sicr wedi eu hanner hanner chwarae Llanrug.

Yn yr ail hanner Llanrug oedd yn rheoli canol y cae gyda Keith Davies a Ken Owen yn cydweithio'n dda, ond yn tueddu i ddal gormod ar y bêl nes oedd y blaenwyr yn cael eu dal yn camochri dro ar ôl tro. Bu Hefin Pritchard yn anlwus gan iddo daro trawsbost y gôl a'r golgeidwad wedi ei guro. Aeth ciclo a thaclo Abergele braidd yn flêr yn y cyfnod hwn. ac aeth enw un o'u chwaraewyr i lyfr bach y dyfarnu am iddo geisio penio un o hogia Llanrug yn lle'r bêl.

'Roedd hi'n edrych fel ail gêm yn Llanrug ddydd Calan, ond gyda munud yn unig ar ôl enillodd Abergele gic gosb ar yr asgell chwith. Cododd ei blaenwr i'w chyfarfod â'i ben a'i phlannu yng nghefn y rhwyd. Prin fod amser ar ôl i ail ddechrau'r gêm.

Mae Llanrug bellach yn ail yng Nghynghrair Arfon a chyfartaledd goliau da ganddynt, ond bydd angen i Bwllheli, sydd ar y brig, golli tria phwynt os yw'r ben-campwriaeth am ddod i Llanrug.

Tîm canol y tabl sydd yn Llanberis hyd yma, ond mae gobaith am gwpan neu ddwy yn fyw o hyd.